

29 Tachwedd 2013

Y Gymraeg a'r Farchnad Lafur

Pwyntiau allweddol

- 72.0 y cant oedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl 16 i 64 oed oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu â 67.3 y cant ar gyfer y rheini na allent siarad Cymraeg.
- Roedd y bobl oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn fwyaf tebygol o fod yn gweithio ym myd addysg (16.2 y cant) a gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (14.0 y cant). Roedd y bobl oedd yn dweud nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn fwyaf tebygol o fod yn gweithio yn y fasnach cyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau a beiciau modur (16.0 y cant) yn ogystal â gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (14.5 y cant).
- Er bod 16.6 y cant o'r bobl gyflogedig yn siaradwyr Cymraeg, roedd 29.5 y cant o bobl yn siarad Cymraeg yn y sector amaethyddiaeth, ynni a dŵr. Roedd y sefyllfa yn debyg ym myd addysg, lle'r oedd 26.7 y cant o bobl yn siarad Cymraeg. Ar y llaw arall, roedd pobl yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn llai tebygol o allu siarad Cymraeg (10 y cant o'r rhai cyflogedig).
- Mae 7.6 y cant o siaradwyr Cymraeg yn dilyn uwch-alwedigaethau rheoli, gweinyddu a phroffesiynol, sef yr un gyfran â'r rheini na allant siarad Cymraeg. Mae'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fod yn dilyn galwedigaethau rheoli, gweinyddu a phroffesiynol is (23.0 y cant) o'i gymharu â'r rheini na allant siarad Cymraeg (18.7 y cant). Ar y llaw arall, mae canran uwch o'r rheini na allant siarad Cymraeg yn dilyn galwedigaethau lled-ailadroddus neu ailadroddus - 30.3 y cant o'i gymharu â 23.6 y cant.
- Mae 22.9 y cant o fyfyrwyr amser llawn yn gallu siarad Cymraeg.

Cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol

Ffon: 029 2082 3332

E-mail: ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk

